Ein cynllun i greu cymunedau diogelach, cryfach

CEIDWADWYR CYMREIG
Maniffesto Llywodraeth Leol 2022

Promoted by Tom James on behalf of the Welsh Conservatives, both of Pro-copy Business Centre, Parc Ty Glas, Cardiff, CF14 5DU. Printed by Print Centre Cardiff, 6 Windsor Place, Cardiff CF10 3BX.
Hyrwyddwyd gan Tom James, ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, y ddau o Canolfan Fusnes Pro-copy, Parc Tŷ Glas, Caerdydd, CF14 5DU. Argraffwyd gan Print Centre Cardiff, 6 Plas Winsor, Caerdydd, CF10 3BX.

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

www.ceidwadwyr.cymru

WelshConserv

WelshConservatives

Welsh_Conservatives



CYNNWYS

2 Ein cynllun i greu cymunedau diogelach, cryfach

4 Rhagair

6 Grymuso pobl leol

8 Ymfalchïo mewn lle

10 Creu swyddi lleol i bobl leol

12 Cymunedau iachach a diogelach

14 Cymunedau cadarn ar gyfer y genhedlaeth nesaf

16 Cyflwyno ariannu teg

EIN CYNLLUN I GREU CYMUNEDAU DIOGELACH, CRYFACH

GRYMUSO POBL LEOL – y bobl sy'n gwybod beth sydd orau i'w hardal leol yw'r bobl sy'n byw ynddi – rhoi'r pŵer iddynt benderfynu sut mae eu cymuned yn tyfu.

YMFALCHÏO MEWN LLE – mynd i'r afael â'r materion sy'n difetha ein cymunedau, fel y gall pawb fod yn falch o'r man lle maen nhw'n byw.

CREU SWYDDI LLEOL I BOBL LEOL – helpu ein strydoedd mawr i amrywiaethu er mwyn cwrdd â heriau'r dyfodol, a denu buddsoddiad ar draws ein cymunedau i roi hwb i fusnes a chreu swyddi.

CYMUNEDAU IACHACH A DIOGELACH – sicrhau bod y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio i ddarparu gofal cymdeithasol i'r rhai sydd ei angen. Gweithio gyda'r Heddlu a chyrff gorfodi i gadw'n strydoedd a'n cymunedau'n ddiogel.

CYMUNEDAU CADARN AR GYFER Y GENHEDLAETH NESAF – rhoi'r cyfleoedd maent yn eu haeddu i'n pobl ifanc ar gyfer eu dyfodol, a chyflawni allyriadau sero-net drwy hyrwyddo cymunedau gwyrddach, mwy cynaliadwy, a gwella trafnidiaeth gyhoeddus.

CYFLWYNO ARIANNU TEG – mae cynghorau mewn ardaloedd gwledig ac yng Ngogledd Cymru wedi cael eu rhwystro gan flynyddoedd o danfuddsoddi gan Lywodraeth Lafur Cymru, sydd wedi'u gorfodi i godi'r Dreth Gyngor.

CYFLWYNO CYMUNEDAU CRYFACH

Mae'r pandemig COVID-19 wedi gwthio ein cynghorau i'w terfynau, ond diolch i ymroddiad diflino staff a chynghorwyr ar draws Cymru, mae'r gwasanaethau hanfodol wedi llwyddo i ofalu am y mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig ledled Cymru wedi cefnogi eu cymunedau lleol a chyflwyno gwasanaethau er gwaethaf y tangyllido hanesyddol gan Lywodraeth Lafur Cymru, yn enwedig yn achos cynghorau gwledig a'r rhai yng Ngogledd Cymru, lle mae darparu'r un gwasanaethau'n costio mwy nag mewn mannau eraill.

Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi dangos bod cymunedau lleol ar eu hennill pan fod pob lefel o lywodraeth yn cydweithio. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig i barhau â'r partneriaethau hyn fel y gallwn gyflawni'r pethau canlynol gyda'n gilydd:

- Grymuso pobl leol i gymryd rheolaeth dros ddyfodol eu cymunedau drwy ddatblygu cynlluniau lleol i alluogi twf cydweithredol, a diogelu gwasanaethau lleol ar yr un pryd.
- Creu ymdeimlad o falchder yn y lleoedd rydym yn byw ynddynt a mynd i'r afael â'r materion sy'n difetha ein cymunedau, yn enwedig tipio anghyfreithlon a baw cŵn.
- Galluogi busnesau i ffynnu, gan greu swyddi lleol i bobl leol, a gwrthwynebu treth dwristiaeth Llafur a Phlaid Cymru a fydd yn amharu ar adferiad y diwydiant twristiaeth hanfodol.
- Creu cymunedau iachach gyda gofal cynhwysfawr i'r rhai sydd ei angen a sicrhau bod ein strydoedd yn ddiogel i bawb.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer dyfodol ein pobl ifanc sydd wedi cael cam gan Lafur, a helpu pawb i ailgylchu fel y gallwn gyflawni ein rhwymedigaethau sero-net rhyngwladol.
- Rhoi terfyn ar dangyllido ein cynghorau lleol a gweithio i atal y cylch parhaus o godiadau treth gyngor.

Trwy bleidleisio i'ch Ceidwadwyr Cymreig lleol ar 5 Mai, gallwch gyflawni'r newid sydd ei angen ar ein cymunedau i ddod yn gryfach i bawb.

CYNG CHERYL CARLISLE
Cadeirydd, Cymdeithas Cynghorwyr Ceidwadol Cymru



ANDREW RT DAVIES AS
Arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig



SIMON HART AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

GRYMUSO POBL LEOL

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn mai'r bobl sy'n gwybod beth sydd ei angen ar eu cymunedau yw'r bobl sy'n byw ynddynt.

Ond ar ôl dau ddegawd o ddatganoli, mae llawer o bobl yn poeni bod mwy a mwy o'r pŵer yn cael ei ddal ym Mae Caerdydd neu yn nwylo cyrff rhanbarthol annemocrataidd, yn hytrach na chael ei drosglwyddo i gynghorau lleol a all gyflawni dros bobl leol.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Galluogi cymunedau lleol i greu Cynlluniau Cymdogaeth Leol, fel y gall pobl leol gymryd yr awenau o ran lleoliad gwasanaethau a thai newydd.
- Helpu cymunedau i ddiogelu gwasanaethau lleol trwy Gronfa Perchenogaeth Gymunedol a fydd yn helpu i brynu cyfleusterau cymunedol fel y dafarn, siop neu lyfrgell leol ac achub asedau hanfodol rhag datblygiadau diangen.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Gweithio gyda chymunedau i ddarparu 120,000 o gartrefi newydd dros y deng mlynedd nesaf.
- Sicrhau bod cynghorau a chymunedau lleol yn cael y pwerau a'r cyllid sydd eu hangen arnynt i gyflawni dros bobl leol.
- Helpu pobl leol i brynu eu cartref mewn ardaloedd lle mae lefel uchel o ail gartrefi, a rhoi terfyn ar y duedd hanesyddol yng Nghymru lle mae mwy o eiddo gwag nag ail gartrefi.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Cefnogi cymunedau yng Nghymru gyda bron £500,000 i achub cyfleusterau lleol fel Tŷ'n Llan yng Ngwynedd, ailwampio ac ailddatblygu Neuadd Ddawnsio'r Frenhines ym Mlaenau Gwent, a Chanolfan Adnoddau a Hyfforddiant CANA yn Rhondda Cynon Taf.
- Gwario £121 miliwn ar ddeg prosiect ar draws Cymru o'r Gronfa Codi'r Gwastad newydd, yn cynnwys £17 miliwn ar gyfer Castell Hwlffordd, £15 miliwn ar gyfer Camlas Trefaldwyn a £13 miliwn i hyrwyddo twristiaeth o gwmpas y Safle Treftadaeth y Byd, Traphont Ddŵr Pontcysyllte ger Wrecsam.

YMFALCHÏO MEWN LLE

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ymdeimlad newydd o gymuned a balchder wedi ymgodi yn ein hardaloedd lleol gan fod mwy o bobl yn defnyddio parciau lleol ac yn gwerthfawrogi pethau a gymerwyd yn ganiataol o'r blaen.

Bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda chymunedau a sefydliadau eraill i alluogi pobl leol i adfer balchder yn y man lle maen nhw'n byw, gan ddenu mwy o fuddsoddiad ac atgyfnerthu twristiaeth.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Gweithio gyda'r Heddlu ac eraill i fynd i'r afael â'r plâu ar ein cymunedau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a thipio anghyfreithlon, graffiti, a baw cŵn.
- Sicrhau buddsoddiad yn ein ffyrdd a'n palmentydd i gael gwared â thyllau ffordd a mannau cerddwyr peryglus.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Creu Cronfa Ffyrdd Gwledig gwerth £250 miliwn i roi terfyn ar y llanast ynghylch atgyweirio tyllau ffordd a gwella diogelwch.
- Diogelu meysydd chwarae rhag datblygu diangen a hyrwyddo creu meysydd 3G a 4G, ynghyd ag annog trosglwyddo asedau i brosiectau cymunedol.
- Cyflwyno Cronfa Atgyweirio Palmentydd gwerth £100 miliwn fel y bydd ein strydoedd mawr yn fwy hygyrch, ac i annog teithio llesol ac atal y perygl o faglu neu gwympo.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Ynghyd â chronfeydd twf lleol eraill, bydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hyrwyddo balchder mewn lle ac yn darparu dros hanner biliwn o bunnoedd i gymunedau Cymru wrth i gyllid yr UE ddod i ben. Mae hyn yn golygu mai Cymru yw'r buddiolwr mwyaf o ran cyllid gan Lywodraeth y DU ar ôl ymadael â'r UE.

CREU SWYDDI LLEOL I BOBL LEOL

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn gwybod bod busnesau lleol wrth galon ein cymunedau, yn darparu swyddi i bobl leol, ynghyd â chefnogi sefydliadau ac elusennau lleol.

Yn rhy hir, mae ein busnesau a'n strydoedd mawr lleol wedi dirywio'n araf dan bwysau'r ardrethi busnes uchaf ym Mhrydain.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau helpu busnesau i ffynnu a thyfu fel y gallant greu swyddi ar gyfer pobl leol, a sicrhau hefyd bod ein sector twristiaeth hanfodol yn ymadfer ar ôl y pandemig.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Ystyried cyfleoedd i roi parcio am ddim ar y penwythnos fel y gall pobl ddefnyddio'u strydoedd mawr lleol hyd yn oed os nad ydynt yn gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Helpu busnesau a chymunedau i sicrhau bod mannau lleol yn denu buddsoddiad, a chreu swyddi ar gyfer pobl leol.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Diddymu Treth Dwristiaeth Llafur a Phlaid Cymru a fydd yn niweidio ein sector twristiaeth hanfodol wrth iddo ymadfer ar ôl y pandemig.
- Annog ysgolion, cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus i brynu bwyd a chynhyrchion yn lleol i gryfhau'r cysylltiad rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr lleol.
- Diddymu ardrethi busnes i fusnesau bach a diwygio'r dreth hen ffasiwn hon ar dwf.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Buddsoddi £800 miliwn ar draws Cymru trwy Fargeinion Twf sy'n creu swyddi a chyfleoedd i bobl leol.
- Darparu mwy na £46 miliwn ar gyfer dros 160 o brosiectau ar draws Cymru i helpu pobl i gael gwaith, rhoi hwb i gynhyrchiant, a gweithio tuag at sero-net, yn cynnwys £629,000 i helpu gwneuthurwyr yn Sir Ddinbych i gyflwyno strategaethau cynhyrchu digidol a £2.7 miliwn ar gyfer chwe phrosiect ar draws Powys.

CYMUNEDAU IACHACH A DIOGELACH

Trwy helpu cymunedau i fod yn fwy egnïol, gall cynghorau alluogi pobl i fod yn iachach.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ymrwymedig i sicrhau bod y GIG ar gael i bawb, am ddim, yn y man defnyddio. Trwy gydweithio, gall cynghorau, gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG ddarparu gofal cynhwysfawr sy'n cefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl, a galluogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth.

Rhaid i bobl deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau hefyd, a bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gweithio gyda'r Heddlu a chyrff gorfodi i gadw'n strydoedd a'n cymunedau'n ddiogel.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn cydweithio'n agosach i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, a rhoi urddas a pharch iddynt.
- Grymuso cymunedau i gadw cyfleusterau hamdden ar agor i hybu iechyd meddwl a chorfforol.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Deddfu ar gyfer Cyfamod y GIG a fydd yn diogelu'r GIG ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys gofal cymdeithasol, gan warantu cynnydd blynyddol yn y gwariant ar y GIG a gofal sylfaenol.
- Cynyddu'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bob blwyddyn a gwario mwy ar y gronfa Strydoedd Diogelach i ehangu CCTV a gwella goleuadau stryd ar draws Cymru.
- Ehangu rôl Therapyddion Galwedigaethol i ddarparu gofal cynhwysfawr sy'n cynnal annibyniaeth person, ynghyd â chyflwyno Isafswm Cyflog Gofal o £10 yr awr.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Wedi darparu 479 yn fwy o Blismyn ar strydoedd Cymru.
- Gwario £700 miliwn ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ynghyd â rhoi £1.9 biliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Cymru ar gyfer y GIG yng Nghymru.

CYMUNEDAU CADARN AR GYFER Y GENHEDLAETH NESAF

Mae dyfodol ein cymunedau yn y fantol. Yn rhy hir, mae'r tangyllido gan Lywodraeth Lafur Cymru yn golygu bod ein pobl ifanc wedi colli allan.

O gymharu â myfyrwyr yn Lloegr, dylai £1,000 yn fwy gael ei wario ar addysg myfyrwyr Cymreig, ond ar hyn o bryd maent yn colli allan ar £100 y flwyddyn. Ac er i Lafur gyhoeddi argyfwng hinsawdd dwy flynedd yn ôl, maent wedi petruso ac oedi yn lle gweithredu.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisiau i'n cymunedau lleol fod yn addas i'r dyfodol, gan roi terfyn ar y dirywiad yn ein trafnidiaeth gyhoeddus, a chyflawni lle mae Llafur wedi gwneud cam â'n pobl ifanc.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Diogelu'r amgylchedd trwy gynyddu ailgylchu a darparu gwasanaethau i helpu cymunedau i ailgylchu cymaint â phosibl.
- Sicrhau bod pob person ifanc yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial mewn ysgolion sy'n addas i'r pwrpas o ran cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Rhoi terfyn ar dangyllido'n pobl ifanc, a rhoi mwy o arian sy'n mynd yn syth i'r ystafelloedd dosbarth i helpu ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm.
- Ehangu prosiectau ynni adnewyddadwy hydro a rhai ar raddfa fechan, a chyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru i fynd i'r afael â llygredd aer.
- Creu Asiantaeth Lifogydd Genedlaethol yng Nghymru i ymchwilio i amlder llifogydd, a gweithio gyda chynghorau lleol i atal llifogydd yn y dyfodol.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Y Ceidwadwyr yn darparu'r setliad cyllid blynyddol mwyaf i Gymru ers datganoli, gan sicrhau cyllid i awdurdodau lleol.
- Mae Rishi Sunak wedi creu Cynllun 'Kickstart' gwerth £2 biliwn i greu swyddi ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor ledled y DU.

CYFLWYNO ARIANNU TEG

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae costau byw wedi cynyddu ac mae'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi codi gan bron 200%, gan ychwanegu £900 at fil cyfartalog cartrefi. Ar yr un pryd mae cyflogau wedi codi 78% yn unig - y tu ôl i'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae busnesau bach yng Nghymru yn cael eu rhwystro hefyd gan y lefelau uchaf o ardrethi busnes lleol - maent yn talu mwy nag mewn rhannau eraill o Brydain. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymgyrchu ers tro am ariannu tecach ar draws Cymru ac atal Llywodraeth Cymru rhag tangyllido cymunedau yn ein hardaloedd gwledig a Gogledd Cymru.

BYDDAI'R CEIDWADWYR CYMREIG LLEOL YN:

- Darparu'r gwasanaethau mae cymunedau lleol yn dibynnu arnynt, a sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr ar yr un pryd.
- Cydweithio gyda chynghorau cyfagos ac eraill i leihau costau a gwella gwasanaethau.

MAE'R CEIDWADWYR CYMREIG YN Y SENEDD YN HYRWYDDO:

- Sicrhau ariannu teg i holl gynghorau Cymru fel y gallant ddarparu'r gwasanaethau mae pobl yn dibynnu arnynt, gan gydnabod y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddarparu cymorth mewn ardaloedd gwledig.
- Rhoi mwy o gyllid i gynghorau fel y gallant rewi'r dreth gyngor, gwrthwynebu'r cynnydd parhaus yn y Dreth Gyngor, a diogelu gwasanaethau ar yr un pryd.

GWEITHREDU GAN LYWODRAETH Y DU:

- Wedi rhoi bron £9 biliwn yn ychwanegol i Lywodraeth Lafur Cymru yn ystod y pandemig i fynd i'r afael â Covid-19.
- Y buddsoddiad mwyaf erioed gan y Ceidwadwyr, sy'n golygu bod Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bellach yn cael £3 biliwn yn fwy y flwyddyn nag yr oedd cyn 2010.